Sut y dylwn roi gwybod am ddamweiniau?

Mae Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR) yn ei gwneud yn ofynnol i roi gwybod am farwolaethau neu anafiadau mawr, anafiadau dros 3 diwrnod, rhai afiechydon a rhai digwyddiadau peryglus.

Mae'n rhaid rhoi gwybod am bob damwain, afiechyd a digwyddiad peryglus i Ganolfan Gyswllt Digwyddiadau (ICC). Sefydlwyd y Ganolfan Gyswllt ar 1af Ebrill 2001 fel man cyswllt ar gyfer cyflwyno adroddiadau am bob digwyddiad yn y DU.

Gallwch roi gwybod am ddigwyddiadau drwy unrhyw un o'r llwybrau canlynol:

Ffôn: 0845 3009923 (ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener o 8.30am i 5.00pm).
Rhyngrwyd: www.riddor.gov.uk
Ffacs: 0845 3009924 (ffurflen adrodd dros y ffacs) neu
Post i: Canolfan Gyswllt Digwyddiadau, Parc Busnes Caerffili, Caerffili, CF83 3GG

Gallwch barhau i roi gwybod yn uniongyrchol i'ch Swyddfa HSE leol neu eich Awdurdod Lleol drwy gwblhau ac anfon y ffurflen gopi caled berthnasol. Y rhain yw:

- **F2508 – Cofnodi anaf neu ddigwyddiad peryglus**
- **F2508A – Cofnodi achos o afiechyd**
- **F2508G1 – Cofnodi digwyddiadau o nwy hylosg**
- **F2508G2 – Cofnodi ffitiadau nwy peryglus**
- **F2508OIR9b – Report of an injury or dangerous occurrence offshore**

Bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu hanfon ymlaen i ICC i'w prosesu.